# GRYMUSO CASGLIADAU



MUSEUMS ASSOCIATION

COLLECTIONS 2030

# CYFLWYNIAD

***Braint, yn wir, yw rhannu argymhellion gwaith ymchwil Casgliadau 2030 gyda chi.***

Eu casgliadau sy'n gwneud amgueddfeydd yn unigryw. Maent yn gofnod grymus o'n presennol ac yn ffenest i'r gorffennol sy'n ei gysylltu â heddiw ac yfory. Gwyddom fod ymwneud â'r casgliadau yn ein hysbrydoli ac yn rhoi hwb i ni, a gallant wneud lles mawr i'n hiechyd a'n llesiant.

Ond nid yw hyn yn digwydd ar ei ben ei hunan. Mae gofyn i'n pobl ddawnus ac ymroddedig ni ddefnyddio'u gwybodaeth a'u creadigrwydd i wneud i'n casgliadau ganu, i ddatgelu eu straeon ac i sicrhau eu bod yn berthnasol ac rymusol. Ac ni allwn ni ei wneud ar ein pen ein hunain; er mwyn sicrhau bod ein casgliadau'n cael yr effaith orau, mae'n rhaid i ni gydweithio â'n cymunedau ac â phobl sydd â gwahanol safbwyntiau a sgiliau arbenigol. Mae argymhellion Casgliadau 2030 yn mawrygu ein casgliadau ac yn pwysleisio bod pawb ohonom sy'n gweithio mewn amgueddfeydd ac orielau, beth bynnag yw ein gwaith, yn gyfrifol am eu gwarchod a'u defnyddio yn y ffordd orau.

Diolch yn fawr i'r grŵp llywio ac i bawb a gyfrannodd at yr argymhellion hyn mewn gweithdai, ar lein ac mewn sgyrsiau un-i-un.

**Maggie Appleton**
Llywydd, Cymdeithas yr Amgueddfeydd




# Y DEGAWD NESAF AR GYFER CASGLIADAU

Mae casgliadau'n bwysig i bobl. Gall y miliynau o eitemau sydd mewn amgueddfeydd ledled y Deyrnas Unedig fod yn destun gwybodaeth, balchder, ysbrydoliaeth, dadleuon a chyfleoedd i gynulleidfaoedd, cymunedau ac ymchwilwyr. Ond mae potensial enfawr heb ei gyflawni yn y casgliadau hyn o hyd. Gall amgueddfeydd wneud mwy i ddatgelu'r straeon y maent yn gofalu amdanynt, ehangu cyfranogiad, a sicrhau eu bod yn berthnasol am amser maith i ddod. Er mwyn gwneud hynny, mae angen i amgueddfeydd feddwl yn strategol sut i reoli a defnyddio'u casgliadau dros y degawd nesaf, a pha newidiadau y mae angen eu gwneud mewn polisïau a diwylliant er mwyn gwireddu hyn.

Lansiodd Cymdeithas yr Amgueddfeydd (MA) brosiect Casgliadau 2030 ddechrau 2018 er mwyn ymateb i'r materion hyn ac amlinellu strategaeth ar gyfer casgliadau amgueddfeydd dros y degawd nesaf.

Yn y flwyddyn a aeth heibio, rydym wedi ymgynghori â dros 1,000 o bobl o'r sector amgueddfeydd, academia, arianwyr a grwpiau cymunedol i holi eu barn am y blaenoriaethau ar gyfer casgliadau. Mae'r ymateb a gawsom o bob math o wahanol ffynonellau wedi'n galluogi i wneud nifer o argymhellion clir i amgueddfeydd, llywodraethau, arianwyr, a chyrff yn y sector a fydd yn rhoi mynediad at gasgliadau wrth galon gwaith amgueddfeydd dros y degawd nesaf, ac yn sicrhau bod casgliadau'n chwarae rhan hanfodol mewn cymdeithas yn y dyfodol.



# YR HERIAU SY'N WYNEBU CASGLIADAU

Mae ein hymgynghoriad yn dangos bod amgueddfeydd yn ymfalchïo'n fawr yn eu casgliadau ond mae'n dangos hefyd bod pryderon am faint casgliadau a photensial sydd heb ei gyflawni. Hoffai pobl sy'n gweithio mewn amgueddfeydd a gydag amgueddfeydd weld mwy o sylw'n cael ei roi i gasgliadau a'u heffaith ar gymdeithas. Gwelant gyfle i ddefnyddio casgliadau mewn ffyrdd sy'n fwy grymusol a pherthnasol i gynulleidfaoedd amrywiol, ac maent yn cydnabod yr angen i reoli casgliadau mewn ffordd fwy deinamig er mwyn sicrhau eu bod mor hygyrch ag y bo modd yn y tymor byr a'r tymor hir. Er bod amgueddfeydd wedi symud ymlaen yn wych dros y blynyddoedd diwethaf ac ers i Gymdeithas yr Amgueddfeydd gyhoeddi adroddiad Collections for the Future yn 2005, mae llawer i'w wneud o hyd. Dyma grynodeb o'r prif heriau:

## *Diwylliant*

Mae diwylliant wedi datblygu mewn amgueddfeydd sy'n golygu bod gwaith gyda chasgliadau a gwaith gyda chynulleidfaoedd yn aml yn digwydd yn hollol annibynnol ar ei gilydd. Yn ogystal, gwelir tuedd ymhlith staff i drin pob eitem mewn casgliadau fel pe baent yn gyfwerth ac i roi mwy o bwys ar ddogfennu a chadwraeth. Gall hyn gyfyngu ar allu amgueddfeydd i arbrofi â dulliau newydd o wneud casgliadau'n hygyrch, yn rymusol ac yn berthnasol. Mae llawer o amgueddfeydd yn canolbwyntio ar wneud dim ond beth sydd raid yn eu gwaith gyda chasgliadau: ond maent yn defnyddio llawer o'u hadnoddau yn ceisio dal i fyny â gwaith dogfennu, er nad yw'r cyhoedd, yn aml, yn gweld nac yn deall hyn. Cred rhai ei bod yn rhaid gwneud y gwaith hwn er mwyn cyrraedd safonau anhyblyg y sector, yn cynnwys y cynllun Achredu a Chod Moeseg Cymdeithas yr Amgueddfeydd, er bod llawer o'r safonau hyn wedi'u hadolygu yn y blynyddoedd diwethaf a'u bod yn fwy hyblyg ac yn rhoi mwy o bwyslais ar y gynulleidfa erbyn hyn. Dylai amgueddfeydd a chyrff yn y sector gydweithio i feithrin diwylliant sy'n dod â mwy o ddemocratiaeth i gasgliadau cyhoeddus.

## *Perthnasedd*

Yn y degawd nesaf, bydd angen i bob amgueddfa ystyried sut i ddefnyddio'i chasgliadau i apelio at gynulleidfa sy'n tyfu ac yn dod yn fwy amrywiol. Bydd angen gweithio mewn ffordd gyfranogol a llawn dychymyg gyda'r casgliadau presennol ac wrth gaffael eitemau newydd. Yn ogystal, bydd angen i amgueddfeydd fynd i'r afael, mewn ffordd sensitif, â'r cynnydd yn y dadansoddi ôl-drefedigaethol ar gasgliadau amgueddfeydd.

# YR HERIAU SY'N WYNEBU CASGLIADAU

## Maint

Mae gan y rhan fwyaf o amgueddfeydd gasgliadau sylweddol o ddeunyddiau yn cael eu harddangos neu eu storio neu ar fenthyg i sefydliadau eraill. Mae llawer yn pryderu sut i reoli'r casgliadau hyn dros y degawd nesaf. Gyda'r storfeydd yn gorlifo a staff ac adnoddau'n brin, mae llawer o gasgliadau amgueddfeydd yn aros yn yr unfan neu hyd yn oed yn dirywio. Teimla amgueddfeydd na allant gynnal adolygiadau trwyadl o'u casgliadau, casglu deunydd newydd, symud eitemau dyblyg neu rai diangen o'u casgliadau, na rhoi digon o ofal i'w heitemau. Mae angen dulliau storio newydd a dulliau mwy effeithiol o adolygu a rhesymoli casgliadau.

## Hygyrchedd digidol

Yn yr oes ddigidol, mae pobl yn fwyfwy tueddol o feddwl, 'os nad yw rhywbeth ar lein, dydi e ddim yn bod'. Dros y blynyddoedd diwethaf, bu amgueddfeydd yn archwilio llawer o ffyrdd newydd o gyflwyno casgliadau i gynulleidfaoedd newydd ar lein. Fodd bynnag, hyd yma bu'r gwaith yn dameidiog. Yn y degawd nesaf, bydd angen agwedd strategol at waith digidol yn y sector. Rhaid i amgueddfeydd gydweithio i sicrhau bod eu casgliadau ar gael ar lein ac i gasglu deunydd digidol anedig. Yn ogystal, mae angen iddynt ddysgu sut i guradu casgliadau'n effeithiol ar gyfer cynulleidfa ar-lein.

## Adnoddau a sgiliau

Mae amgueddfeydd wedi dioddef toriadau yn eu cyllid dros y degawd diwethaf gan olygu bod casgliadau'n colli adnoddau a staff amgueddfa medrus. Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau uchod, bydd arnynt angen adnoddau a sgiliau i weithio'n effeithiol gyda chasgliadau a chymunedau.

# NODAU STRATEGOL AR GYFER CASGLIADAU

Dros y degawd nesaf, bydd angen i amgueddfeydd sicrhau bod eu casgliadau yn:

## *Grymuso –*

gan ddefnyddio casgliadau i ddwyn cymunedau ynghyd, hybu iechyd a llesiant, ystyried materion yn ymwneud â lle a hunaniaeth, ac arfogi pobl â'r ffeithiau a'r ddealltwriaeth sy'n berthnasol i faterion cyfoes.

## *Perthnasol –*

gan gydweithio â defnyddwyr a rhanddeiliaid i ddeall yn well sut y gall casgliadau fod yn berthnasol i gynulleidfaoedd amrywiol.

## *Deinamig –*

gan sicrhau bod casgliadau'n cael eu rheoli'n dda, eu deall a'u rhesymoli a'u bod ar gael i gynulleidfaoedd yn y fan a'r lle neu ar lein.

Er mwyn gwireddu hyn, mae angen i amgueddfeydd, arianwyr a chyrff yn y sector gydweithio i:

- newid diwylliant casgliadau mewn amgueddfeydd i fod yn fwy agored a democrataidd – yn fewnol ac yn allanol
- buddsoddi mewn sgiliau a seilwaith i reoli'r casgliadau ac ennyn diddordeb y cyhoedd
- sicrhau mwy o gydweithio rhwng amgueddfeydd a'r cyhoedd fel y gellir rhannu'r casgliadau yn well.



# EIN HARGYMHELLION



# *Grymuso casgliadau*

Mae gan gasgliadau botensial enfawr i rymuso pobl Mewn oes o raniadau cymdeithasol a gwleidyddol, pan fo canol ein trefi a'n dinasoedd yn cael eu gwagio, yr hinsawdd mewn argyfwng a'r amgylchedd yn dirywio, mae llawer o amgueddfeydd yn teimlo fwyfwy bod arnynt gyfrifoldeb i hybu iechyd a llesiant, i greu lleoedd, ac i feithrin addysg a sgiliau, a dinasyddiaeth weithredol. Gall amgueddfeydd ddefnyddio'u casgliadau a'r straeon a adroddant i ddwyn pobl ynghyd, i hybu cyd-ddealltwriaeth ac i arfogi pobl â ffeithiau a dealltwriaeth sy'n berthnasol i'r materion sy'n bwysig iddynt.

Yn y degawd nesaf, bydd amgueddfeydd yn defnyddio'u casgliadau i rymuso pobl i gymryd rhan weithredol yn ein cymdeithas, gan roi iddynt y ddirnadaeth a'r dulliau angenrheidiol i greu atebion i broblemau cyfoes, i herio anghyfiawnder ac i greu cymunedau cryfach. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu democrateiddio casgliadau amgueddfeydd – hyrwyddo cydguradu, cydgynhyrchu a chyfranogi. Trwy ddefnyddio'r dull hwn, bydd raid i amgueddfeydd wynebu rhai o'r beirniadaethau a anelir at y gwaith a wnaed gyda chasgliadau yn y gorffennol a chymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch dad-drefedigaethu casgliadau amgueddfeydd.






8



*"Mae angen i chi weld eich bod yn cael eich cynrychioli mewn diwylliant er mwyn ei werthfawrogi a dymuno cymryd rhan ynddo. Mae angen casglu mewn ffordd strategol o blith grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ac mae angen naratifau ychwanegol ar gasgliadau presennol."*

Ymatebydd i Casgliadau 2030

ARGYMHELLWN:

## 1

## Newid diwylliannol yng ngwaith amgueddfeydd a chasgliadau

Mae angen i amgueddfeydd a'r bobl sy'n gweithio ynddynt a gyda hwy ehangu ar y syniad o waith sylfaenol gyda chasgliadau, gan flaenoriaethu prosiectau lle caiff casgliadau eu defnyddio, gyda chanlyniadau pendant a llawer o ddefnyddwyr amgueddfeydd a chymunedau'n cymryd rhan. Er mwyn cyflawni hyn:

- dylai amgueddfeydd ymdrechu i sicrhau bod eu strwythurau mewnol yn fwy integredig a hylifol, fel y gall yr holl staff weithio gyda chasgliadau a chymunedau a rhannu eu harbenigedd yn y ddau faes
- dylai amgueddfeydd ymgynghori'n rheolaidd â chynulleidfaoedd ar y ffordd o ymchwilio i gasgliadau, eu cyflwyno a'u defnyddio, a dylent sicrhau bod eu gwaith gyda'r casgliadau'n cyd-fynd â nod a gweledigaeth gyffredinol yr amgueddfa; bydd gweithlu amrywiol yn cyfrannu at y newid diwylliannol hwn hefyd
- dylai cyrff yn y sector hybu dull hyblyg o ofalu am gasgliadau a'u dogfennu yn dilyn adolygiadau o'r Safon Achredu, Spectrum a'r Cod Moeseg yn ddiweddar.
- dylai arianwyr ddatblygu ffynonellau cyllid newydd sy'n annog trefnu gwaith ar gasgliadau sy'n cael eu defnyddio; dylai'r cyllid hwn roi pwyslais ar gyfranogiad y cyhoedd ochr yn ochr â gwybodaeth ac arbenigedd gweithwyr proffesiynol, a sicrhau bod casgliadau'n chwarae rhan mewn prosiectau iechyd a llesiant, creu lleoedd a dinasyddiaeth weithgar.

## 2

## Agwedd ragweithiol at ddemocrateiddio a dad-drefedigaethu amgueddfeydd

Mae tuedd gynyddol i wahanol grwpiau mewn cymdeithas ddadlau am yr hyn sydd mewn casgliadau. Mae llawer o amgueddfeydd wedi ceisio chwarae rhan gadarnhaol yn y trafodaethau hyn ond nid oes digon o wybodaeth ynglŷn â'r ffordd i ymdrin â materion yn ymwneud â dad-drefedigaethu casgliadau ac adfer eitemau i'r mannau neu'r bobl wreiddiol. Dylai sefydliadau cefnogi'r sector, Pwyllgor Moeseg Cymdeithas yr Amgueddfeydd ac amgueddfeydd gydweithio i baratoi canllawiau newydd ar gyfer y sector a sicrhau bod amgueddfeydd yn gwneud ymdrech i ailddehongli a dad-drefedigaethu casgliadau.

*"Er bod llawer o amgueddfeydd wedi mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn dros yr 20 mlynedd diwethaf a mwy, ni ddaeth yn rhan amlwg o agendâu amgueddfeydd tan yn awr. Un peth ymarferol y gallwn ei wneud dros y blynyddoedd nesaf yw newid cynnwys, tôn a therminoleg yr hanes trefedigaethol a adlewyrchir mewn rhai casgliadau. Bydd angen i ni ymchwilio i darddiad eitemau, ymchwilio ar y cyd â'r cymunedau y daeth yr eitemau ohonynt, ac ystyried sut y gallwn gynnwys lleisiau mwy amrywiol yn ein penderfyniadau curadurol."*

Ymatebydd i Casgliadau 2030

ASTUDIAETHAU ACHOS

# *Making African connections – decolonial futures for colonial collections*



Mae'r prosiect hwn, a arweinir gan Brifysgol Sussex a'i ariannu gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, yn mynd i'r afael â hanes trefedigaethol tri casgliad hanesyddol o ddeunydd o Affrica mewn amgueddfeydd yn ne-ddwyrain Lloegr: Royal Pavilion & Museums, Brighton; Powell-Cotton Museum, Birchington-on-Sea, a'r Royal Engineers Museum, Gillingham. Datblygodd y casgliadau hyn mewn cyd-destunau gwahanol iawn – trwy ddiddordeb ethnograffig, ymyrraeth genhadol a goresgyniad ymerodraethol treisgar – ac mae'r partneriaid yn y prosiect yn ystyried beth yw goblygiadau'r mathau gwahanol hyn o hanes trefedigaethol i ni yn y cyfnod ôl-drefedigaethol.

Ym mhob achos, mae staff ac ymchwilwyr yr amgueddfeydd yn cydweithio'n agos â gweithwyr cyfatebol o brifysgolion ac amgueddfeydd yn y mannau y daeth y casgliadau ohonynt. Ymhlith y cynnyrch mae cyfres o arddangosiadau a gydgynhyrchwyd, adnodd ar-lein yn cynnig mynediad at 600 o arteffactau hanesyddol, cynnwys newydd ar Wikipedia a dychwelyd deunydd o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg (ar fenthyg i ddechrau) i Botswana, i'w arddangos yn Amgueddfa Goffa Khama III.

Mae'r prosiect wedi tanlinellu pwysigrwydd cydweithio'n agos gyda phartneriaid yn Affrica a budd-garfannau Affricaniaid alltud, ac arwyddocâd casgliadau hanesyddol a gedwir mewn amgueddfeydd rhanbarthol. Credir mai'r casgliad o tua 3,000 o wrthrychau o ardal y ffin rhwng Namibia ac Angola, sydd yn Amgueddfa Powell-Cotton, yw'r mwyaf yn Ewrop ac mae ffotograffau, ffilmiau a nodiadau manwl yn cyd-fynd ag ef. Mae'r deunydd o Swdan (200 o wrthrychau a dogfennau) sydd yn y Royal Engineers Museum a chasgliad Botswana (300 o wrthrychau) yn Amgueddfa Brighton yn taflu goleuni newydd ar ddigwyddiadau hanesyddol arwyddocaol.

**http://makingafricanconnections.org**

# 3

## *Canolbwyntio ar ailddehongli arddangosfeydd sydd wedi dyddio*

Mae llawer o amgueddfeydd a defnyddwyr amgueddfeydd yn cwyno bod arddangosiadau a labeli wedi dyddio. Yn aml, mae'r syniadau a'r iaith yn hen ffasiwn neu wedi'u disodli gan syniadau ac ymchwil newydd. Dylai amgueddfeydd ganolbwyntio ar ddiweddaru arddangosiadau cyhoeddus a dylent ddefnyddio gwaith wedi'i gydgynhyrchu a gwaith prosiect yn sylfaen ar gyfer eu diweddaru

*"Er mwyn gwir sylweddoli potensial cyd-guradu, mae angen i amgueddfeydd dderbyn bod grymuso pobl eraill bob amser yn golygu ildio peth o'r grym sydd ganddyn nhw ar hyn o bryd i ddatblygu casgliadau a rhoi'r defnydd a wneir o gasgliadau yn ei gyd-destun."*

Ymatebydd i
Casgliadau 2030



ASTUDIAETHAU ACHOS

# *"Pwy sy'n Penderfynu?" yn Amgueddfa Cymru*



Roedd Pwy sy'n Penderfynu? yn arddangosfa gelf gyfoes a gyd-guradwyd gyda'r Wallich, elusen ddigartrefedd yng Nghymru. Trwy'r bartneriaeth hon, nod yr amgueddfa oedd defnyddio dull cyfranogol o guradu ei chasgliad parhaol er mwyn herio syniadau am ddigartrefedd a sicrhau mwy o amrywiaeth ymhlith gwirfoddolwyr a chynulleidfaoedd mewn amgueddfeydd ac orielau.

Cafodd y gwaith o guradu a threfnu adain gyfan o'r amgueddfa ei ddirprwyo o grŵp o 10 o ddefnyddwyr gwasanaethau'r Wallich. Buont yn gweithio ar bob agwedd ar yr arddangosfa yn cynnwys dewis gwaith celf, ysgrifennu eitemau dehongli, gosod yr arddangosfa a chynnal gweithgareddau.

Bu dros 96,000 o ymweliadau yn ystod yr arddangosfa 10 mis. Mewn rhan o'r arddangosfa, dirprwywyd awdurdod i ymwelwyr a phleidleisiodd 8,000 o ymwelwyr dros ryddhau gweithiau o storfa yn yr oriel, gan gynnwys darnau newydd yn yr arddangosfa bob mis.

Teimlai ymwelwyr bod y gwaith dehongli fel chwa o awyr iach oherwydd y safbwyntiau a fynegwyd, y storïau a'r cysylltiadau. Roeddent yn falch o'r cyfle i gymryd rhan mewn sgyrsiau, gan fynd ar deithiau oriel o dan arweiniad curadur Wallich a llenwi dros 9,000 o gardiau ymateb oedd yn hybu sgwrs.

Teimlai curaduron Wallich iddynt gael eu trawsnewid – o fod yn nerfus o orielau i fod yn angerddol o'u plaid. Fe wnaethon nhw gyfrannu dros 1,000 o oriau o'u hamser. Roedd eu hymroddiad yn rhagori ar y disgwyliadau, yn enwedig gan fod rhai ohonynt yn dal i wynebu heriau yn eu bywyd.

Fe wnaethon nhw gwblhau cwrs wedi'i achredu ym maes Celf Cymru. Er na fu erioed mewn oriel o'r blaen, mae un o'r rhai a gymerodd ran ar fin dechrau ar gwrs sylfaen mewn celf. Mae'r grŵp yn gwirfoddoli'n rheolaidd yn yr amgueddfa ac erbyn hyn maent yn mentora gwirfoddolwyr newydd. Maent wedi dysgu sgiliau trosglwyddadwy sydd wedi'u helpu i ganfod cyfleoedd newydd; llwyddod dau o'r rhai a gymerodd ran i gael swyddi cyflogedig.

# *Casgliadau perthnasol*

Mae amgueddfeydd wedi llwyddo'n ardderchog i gynyddu niferoedd eu cynulleidfaoedd dros y blynyddoedd diwethaf ac erbyn hyn mae mwy o bobl nag erioed yn dod i gysylltiad â chasgliadau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae llawer i'w wneud o hyd i wneud casgliadau'n berthnasol i'r gynulleidfa ehangaf sy'n bosibl.

Mae angen i amgueddfeydd wrando ar gynulleidfaoedd, defnyddwyr a rhanddeiliaid er mwyn deall sut y gall casgliadau fod yn berthnasol a pha straeon y gallant eu hadrodd. Gall eitemau a chasgliadau olygu rhywbeth i unigolyn, grŵp neu gymuned mewn ffyrdd y gallai curaduron edrych heibio iddynt wrth weithio ar eu pen eu hunain. Mae arnom angen ailddehongli casgliadau ar gyfer y cyhoedd mewn ffyrdd newydd a beirniadol a meddwl mewn ffordd llawn dychymyg sut i sicrhau bod y casgliadau'n golygu rhywbeth i amrediad ehangach o bobl.





14



*"Mae pobl yn teimlo'u bod wedi'u grymuso pan allant deimlo cysylltiad â rhywbeth neu ddylanwadu ar rywbeth.  Mae angen i ni geisio canfod beth yr hoffai pobl ei weld a sut yr hoffent gymryd rhan."*

Ymatebydd i Casgliadau 2030

ARGYMHELLWN:

## 4
## *Gwaith ymchwil er mwyn deall disgwyliadau'r cyhoedd o gasgliadau*

Mae'n amlwg o'n gwaith ymchwil ni bod bwlch sylweddol rhwng gwaith amgueddfeydd ar gasgliadau a dealltwriaeth y cyhoedd o gasgliadau. Er mwyn denu cynulleidfaoedd mwy amrywiol a pharhau'n berthnasol yn y tymor hir, mae angen i amgueddfeydd ddeall yn well beth y mae eu cymunedau – yn ymwelwyr a phobl nad ydynt yn ymweld – yn dymuno'i gael o gasgliadau. Dylai cyrff yn y sector ariannu gwaith ymchwil ymgynghori ledled y Deyrnas Unedig i ganfod barn y cyhoedd er mwyn i amgueddfeydd adnabod eu cymunedau'n well ac ymateb i'r disgwyliadau hyn.

## 5
## *Casglu strategol mewn partneriaeth â chymunedau*

Mae'n anodd casglu ar hyn o bryd oherwydd toriadau mewn cyllidebau a dim ond casglu ymatebol sy'n bosib i lawer o amgueddfeydd. Dylai amgueddfeydd gasglu mewn ffordd strategol ac mewn partneriaeth â defnyddwyr amgueddfeydd a chymunedau, gan gydnabod y gellir gwneud sawl math o gasglu yn gymharol rad, gan gael effaith gymdeithasol sylweddol. Yn ogystal, dylai amgueddfeydd gydweithio mwy â'i gilydd wrth gasglu, gan wybod yn well beth sydd gan sefydliadau eraill (gweler hefyd argymhelliad 10).

*"Ni ddylid byth wneud gwaith ar gasgliadau "er mwyn ei wneud"; rydym yn canolbwyntio fwyfwy ar 'ddefnyddio' ein casgliadau… ac felly dylid rhoi lle blaenllaw i 'ddefnyddioldeb' ein casgliadau (a'n gwaith ar ein casgliadau) wrth gynllunio. Felly, ni ddylid rhoi blaenoriaeth i waith dogfennu nad yw'n galluogi pobl i weld ein casgliadau na'u defnyddio. "*

Ymatebydd i Casgliadau 2030

ARGYMHELLWN:

## 6

## *Agwedd strategol at gasgliadau ar-lein*

Mae angen i amgueddfeydd wneud eu casgliadau'n fyw ar gyfer cynulleidfaoedd ar-lein sy'n cynyddu. Mae hyn yn golygu mynd y tu hwnt i'r model arferol o roi gwybodaeth am gasgliadau ar wefan. Mae angen i amgueddfeydd greu a churadu cynnwys casgliadau ar-lein mewn ffordd sy'n siarad iaith y rhyngrwyd ac yn cydnabod y gwahanol ddiwylliannau ac isddiwylliannau sy'n bodoli ar lein. Bydd angen i sefydliadau yn y sector roi cefnogaeth barhaus i lawer o amgueddfeydd wrth iddynt weithredu strategaethau digidol ar gyfer eu gwaith gyda chasgliadau. Bydd hyn yn gofyn am seilwaith sylweddol hefyd (gweler argymhelliad 10).

*"Dylid gwneud casgliadau mor agored ag y bo modd, yn enwedig lle gall y cymunedau fod yn rhai lleol, cenedlaethol neu ryngwladol. Dylid gwneud eu cynnwys yn hawdd i'w rannu a'i ailddefnyddio trwy ddileu waliau talu a chynnig trwyddedau agored. Mewn llawer o amgueddfeydd gall pwynt cyffwrdd digidol fod mor werthfawr ag ymweliad corfforol, neu'n fwy gwerthfawr."*

Ymatebydd i Casgliadau 2030

## 7

## *Defnyddio prosiectau casgliadau i greu effaith gymdeithasol, i ymgorffori gwybodaeth ac i adeiladu etifeddiaeth*

Mae prosiectau casgliadau yn gyfle i gynnwys cymunedau mewn gwaith cydguradu, gan greu gwybodaeth hirhoedlog a newid mewn sefydliadau. Fodd bynnag, mae llawer o brosiectau casgliadau – yn enwedig rai sy'n cael cyllid allanol – yn cael eu cynnal dros ddwy flynedd neu dair ac, yn aml, mae hynny'n rhy fyr i feithrin clymau cryf â'r gymuned ac mae'r wybodaeth a'r arbenigedd yn cael eu colli ar ddiwedd y prosiect. Rydym yn annog arianwyr i ystyried prosiectau tymor hwy o hyd at bum mlynedd.

# *Cyflwyno casgliadau i gynulleidfaoedd ar-lein yn y Museum of English Rural Life*

Dros y blynyddoedd diwethaf, daeth y cyfryngau cymdeithasol yn un o ddulliau mwyaf pwerus y Museum of English Rural Life (Merl) o gyrraedd at gynulleidfa fawr ryngwladol ac ennyn ei diddordeb. Bu'r amgueddfa'n gweithio'n galed i feithrin cynulleidfa ar-lein ar gyfer ei chasgliad ymddangosiadol arbenigol o bethau sy'n cynrychioli bywyd gwledig yn Lloegr – a chafodd lwyddiant enfawr. Bu cynulleidfaoedd ar-lein wrth eu bodd o gael deunydd amrywiol tu hwnt, gan gynnwys meme Absolute Unit yr amgueddfa, wedi'i seilio ar lun o ddafad fuddugol, a stori o fachgen ifanc oedd yn dwdlan o'i archif o'r 18fed ganrif.

Mae nifer y bobl sy'n dilyn Merl ar Twitter yn adlewyrchu ei llwyddiant, gan dyfu o 9,700 o ddilynwyr ym mis Ebrill 2018 i dros 100,000 lai na blwyddyn yn ddiweddarach. Dros y cyfnod hwn, cafodd yr amgueddfa 108 miliwn o argraffiadau a 6 miliwn o ymgysylltiadau â'i chynnwys. Mae Merl hyd yn oed wedi lansio set o nwyddau'n gysylltiedig â'i chyfryngau cymdeithasol. Ac mae'r twf yn y presenoldeb ar-lein wedi tynnu sylw at yr amgueddfa yn yr ardal hefyd.

Yn ôl Merl, daw ei llwyddiant yn y maes hwn oherwydd ei phenderfyniad i drin y cyfryngau cymdeithasol o ddifrif fel dull o ymgysylltu – nid fel cyfrwng cyfathrebu yn unig. Roedd yr amgueddfa'n cydnabod bod galw enfawr ymhlith cynulleidfaoedd ar-lein am straeon difyr a thrafodaeth ar hanes a diwylliant sydd gan bobl yn gyffredin, a bod amgueddfeydd mewn sefyllfa ddelfrydol i ddiwallu'r angen hwnnw. Cydnabu hefyd bod gan y rhyngrwyd ei diwylliant ei hunan a'i ffordd ei hunan o gyfathrebu. Mae pobl yn awyddus i glywed storïau ac i gymryd rhan, ac felly mae angen i amgueddfeydd addasu eu cynnwys. Nid yw'r rhan fwyaf o bobl sydd ar y cyfryngau cymdeithasol yn awyddus i ddarllen label oriel, ond i gael eu difyrru.

Yn ôl Merl, ychydig o bethau syml sy'n gyfrifol am ei llwyddiant: datblygu llais unigryw a doniol, dewis a chreu storïau crefftus o'r casgliadau, a rhyngweithio â'r dilynwyr. Mae angen cyfuniad o sgiliau marchnata digidol a dealltwriaeth drwyadl o'r casgliadau a'u cyd-destun, ac mae angen i'r amgueddfa gyfan gefnogi'r gwaith.



# Casgliadau deinamig




Er mwyn datblygu casgliadau grymusol a pherthnasol mae angen i ni ddeall beth sydd gennym. Mae llawer o amgueddfeydd – yn enwedig rai sydd â chasgliadau mawr wedi'u datblygu dros ddegawdau neu ganrifoedd – yn methu rhoi cyfrif llawn am eu deunydd na'i darddiad. Yn aml, nid yw'r wybodaeth am y casgliadau'n ddigonol ac nid yw'n barod ar gyfer yr oes ddigidol. Mae'r storfeydd yn aml yn llawn a chaiff adnoddau gwerthfawr eu gwastraffu ar eitemau nad ydynt yn cyfateb i bolisïau casglu cyfredol neu rai sydd wedi'u dyblygu mewn casgliadau eraill.

Mae'n rhaid i amgueddfeydd wynebu'r materion hyn a sicrhau bod ganddynt seilwaith sy'n caniatáu iddynt wneud y gorau o'u casgliadau. Dros y degawd nesaf, daw llawer o gyfleoedd i wneud casgliadau'n ddeinamig. Gall cyfuniad o arloesi technolegol, mwy o hyder curadurol, partneriaethau a chydweithio gyda chymunedau sicrhau bod gwaith rheoli casgliadau yn effeithlon ac yn cael effaith, gan wneud dyfodol casgliadau yn bwysig i bobl.

## WE RECOMMEND:

### 8
### Cefnogi partneriaethau a rhannu gwybodaeth

Mae'n bwysig bod amgueddfeydd yn gallu casglu, cofnodi a cyflwyno gwybodaeth a naratifau am eu casgliadau er mwyn deall pa mor berthnasol ydynt. Dros y degawd diwethaf, collodd amgueddfeydd lawer o arbenigedd mewn pynciau o ganlyniad i doriadau yn eu cyllid. Rhan o'r ateb, o anghenraid, yw gwneud mwy o ddefnydd o rwydweithiau o arbenigwyr pwnc mewn amgueddfeydd a buddsoddi mwy ynddynt, ynghyd â chynyddu cyfranogiad grwpiau heblaw amgueddfeydd – fel prifysgolion, gwirfoddolwyr, cymdeithasau, casglwyr preifat a grwpiau cymunedol – mewn gwaith gyda chasgliadau. Dylai cyrff yn y sector ac amgueddfeydd cenedlaethol gydweithio i greu dull strategol o fuddsoddi mewn arbenigeddau pwnc ledled y Deyrnas Unedig fel y gall pob amgueddfa alw ar wybodaeth arbenigol am gasgliadau, hyd yn oed os nad yw ar gael yn fewnol.

### 9
### Gwella hyfforddiant a chyllid er mwyn rhesymoli casgliadau amgueddfeydd

Caiff amgueddfeydd eu hannog i lunio polisi cynhwysfawr ar ddatblygu casgliadau, sy'n cyfeirio at waredu casgliadau yn ogystal â'u caffael. Canfu ein hymchwil fod adolygu a rhesymoli casgliadau'n dal yn fater anodd i lawer yn y sector oherwydd diffyg hyder, lle ac adnoddau. Mae angen hyfforddi staff amgueddfeydd yn well ynghylch gwaith rhesymoli moesegol. Dylai hyn gynnwys mwy o gydnabyddiaeth gan amgueddfeydd i'r ffaith fod i wahanol eitemau wahanol werthoedd diwylliannol, hanesyddol a gwyddonol. Yn ogystal, dylai arianwyr gefnogi prosiectau rhesymoli arloesol sy'n cynnwys cyfraniad gan y cyhoedd.




*"Dylai'r sector cyfan bwysleisio nad oes cywilydd, o anghenraid, mewn gwaredu eitemau. Dylai sefydliadau deimlo bod cefnogaeth iddynt wrth wneud hyn a pheidio ag ofni y byddant yn gwneud rhywbeth o'i le ac yn cael eu beirniadu."*

Ymatebydd i Casgliadau 2030

ASTUDIAETHAU ACHOS

# *Rhwydweithiau Arbenigwyr Pwnc (SSN) yn cydweithio i ailddehongli celfyddyd Ewropeaidd ac Islamaidd*

Ym mis Ionawr 2019, cynhaliodd dau SSN, Islamic Art & Material Culture (o dan arweiniad Amgueddfeydd Birmingham) a European Paintings pre-1900 (o dan arweiniad y National Gallery) ddiwrnod astudio ar y cyd ar y pwnc East meets West: Objects in Renaissance Painting. Defnyddiwyd darluniau yn arddangosfa bortreadau Lorenzo Lotto a chasgliad ehangach y National Gallery o waith y Dadeni i ddysgu'r cynadleddwyr am y rhyngweithio rhwng diwylliannau Ewrop a'r byd Islamaidd.

Cafwyd cyllid at y diwrnod gan Arts Council England a'r Pilgrim Trust. Daeth â 55 o bobl ynghyd o amgueddfeydd ledled y Deyrnas Unedig. Gyda'i gilydd, aethant ati i ddatblygu ffyrdd newydd o ddehongli casgliadau, gwneud cysylltiadau newydd ac edrych ar weithio mewn partneriaeth. Daeth y diwrnod i ben gyda sgwrs o flaen darlun Marco Marziale, Yr Enwaedu (1500), yn ystyried elfennau fel sgript ffug-Arabaidd ac arteffactau o'r Dwyrain Canol.



Denwyd sylw nifer o aelodau'r cyhoedd a aeth ati i ymuno â'r grŵp yn y fan a'r lle.

Bu'r sgyrsiau rhwng curaduron yn help i annog dysgu cymar wrth gymar ac ysbrydolwyd y cynadleddwyr i feithrin syniadau ar gyfer ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd. Dywedodd un a fu yno: "Rwy'n bwriadu ailedrych ar (ein) casgliad o gelf Ewropeaidd i weld a oes ffyrdd y gellid dehongli/arddangos ein darluniau ni i bwysleisio'r cysylltiadau â'r byd Islamaidd ac i helpu i ddenu cynulleidfaoedd mwy amrywiol."

ASTUDIAETHAU ACHOS

# *The right stuff – community rationalisation yn Amgueddfa Bridport*

Diolch i gymorth grant o £100,000 gan Gronfa Gasgliadau Esmée Fairbairn o dan Gymdeithas yr Amgueddfeydd, mae Amgueddfa Bridport yn cychwyn ar brosiect tair blynedd arloesol gan gynnal adolygiad o'i chasgliadau fel rhan o raglen gynaliadwyedd wyth mlynedd o hyd, gyda'r nod o adeiladu canolfan gasgliadau newydd bwrpasol. Mae'n allweddol sicrhau bod yno'r pethau iawn, am y rhesymau iawn, yn y lleoedd iawn.

Er mwyn sicrhau hyn, mae'r amgueddfa'n cydweithio â phartneriaid cymunedol i ystyried beth y mae casgliad mewn amgueddfa'n ei olygu iddyn nhw. Y nod yw bod yn eofn – gofyn i'w gilydd beth i'w gadw, pam ac ymhle.

Ni fu gan yr amgueddfa guradur proffesiynol na pholisi casglu go iawn tan 1989 ac mae'n dal i gael trafferth i ddelio'n effeithiol â chasgliad o 50,000 o wrthrychau, archifau a ffotograffau, a dim ond 5% ohonynt yn cael eu harddangos.

Yn ogystal â chasgliadau sylweddol o raffau a rhwydi, ffosilau ac archaeoleg o'r Arfordir



Jwrasig, mae gan Amgueddfa Bridport wrthrychau ym meysydd celfyddyd gain, hanes cymdeithasol, nwmismateg, archifau, ffotograffau a thacsidermi. Mewn sefyllfa sy'n gyfarwydd i lawer o amgueddfeydd eraill, mae'r gwrthrychau hyn, sy'n aml yn rhai generig, heb fod yn lleol, yn bygwth boddi'r casgliadau mwy arwyddocaol o ran y lle maent yn ei gymryd ac o safbwynt deallusol.

Mae'r casgliad sydd yn y storfa yn dal yn anodd ei reoli ac, mewn rhai achosion, yn anodd ei gyfiawnhau. Mae'r amgueddfa'n ei holi ei hunan a'i phartneriaid cymunedol: beth a wnawn ni â'r gweddill? Pam y mae rhai o'r pethau hyn yma? A ddylen nhw fod yma? Oes ots gan rywun?

Mae tîm yr amgueddfa'n cydweithio â mudiadau cymunedol i ystyried beth y dylai'r amgueddfa ei gadw ac ar beth i ganolbwyntio wrth gasglu o hyn ymlaen. Er mwyn bod yn gynaliadwy, amcangyfrifant y bydd angen iddynt waredu hyd at 30% o'r casgliad cyfan. Bydd hyn yn rhyddhau lle ac adnoddau i reoli'r hyn sydd ar ôl yn well, gwella'r lle storio a'i wneud yn fwy hygyrch.

ARGYMHELLWN:

## 10

## *Gwneud casgliadau amgueddfeydd ar-lein yn fwy tryloyw a hygyrch*

Dylai cyrff o'r sector gefnogi'r gwaith o greu a chynnal dyfais ar-lein sy'n galluogi amueddfeydd i rannu gwybodaeth am eu casgliadau ac yn galluogi cymaint ag y bo modd o'r cyhoedd i ymwneud â'r casgliadau trwy raglenni trydydd parti. Byddai modd gwneud cryn dipyn i foderneiddio dyfais bresennol Culture Grid (a chyfleusterau eraill tebyg) at y diben hwn. Yn ogystal, dylai amgueddfeydd ystyried casglu ac arddangos deunydd digidol anedig a dylai arweinwyr yn y maes gydweithio â chyrff yn y sector i baratoi arweiniad a chefnogaeth.

## 11

## *Ystyried rhannu storfeydd*

Cedwir llawer o gasgliadau mewn storfeydd anaddas. Un peth a all helpu i ddatrys y broblem, a sicrhau bod casgliadau'n cael eu digideiddio a'u dogfennu'n dda, yw dulliau storio effeithlon, lle mae nifer o amgueddfeydd yn rhannu'r un cyfleusterau storio modern.



ASTUDIAETHAU ACHOS

# *Ailgartrefu casgliad y Science Museum Group*

Fel rhan o brosiect mwyaf uchelgeisiol y Science Museum Group ers cenhedlaeth, mae tîm y casgliadau'n gwneud un o'r casgliadau gwyddonol mwyaf arwyddocaol yn y byd yn fwy hygyrch, fel y gall cynulleidfaoedd lleol a byd-eang ganfod mwy o'r casgliad cenedlaethol hwn nag erioed o'r blaen.

Mae'r tîm yn storfa wrthrychau Blythe House yng ngorllewin Llundain yn gweithio i astudio, cofnodi, digideiddio, pacio a chludo dros 300,000 o wrthrychau o gasgliad y Science Museum Group i'w cartref newydd yn y Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol yn Wiltshire.

Trwy ddatblygu ap stocrestr oddi-ar-y-silff (Asset Panda) a thrwy gydweithio, mae'r timau arbenigol (peryglon, stocrestr, ffotograffiaeth a phacio) wedi gallu gwneud arbedion effeithlonrwydd sylweddol, gan brosesu 300,000 o wrthrychau mewn dwy flynedd. Mae'r ap yn cysylltu'n uniongyrchol â System Rheoli Casgliadau'r amgueddfa, Mimsy, ac mae wedi disodli systemau blaenorol nad oedd modd eu defnyddio ar declynnau symudol, ac nad oedd yn ddigon cyflym na hyblyg i ddelio â'r llwyth gwaith.







Trwy fuddsoddi mewn technoleg a datblygu piblinell amlyncu lluniau awtomatig, cafwyd effaith sylweddol ar y llif gwaith ffotograffiaeth. Cyn tynnu llun o wrthrych, caiff ei god bar ei sganio, fel y gellir cynnwys gwybodaeth am y gwrthrych yn awtomatig ym metadata'r llun. Mae hyn yn arbed hyd at 10 munud o waith ôl-brosesu ar bob llun ac yn sicrhau bod cysylltiad annatod rhwng y llun a'r gwrthrych.

Llwyddwyd i wneud arbedion effeithlonrwydd ar agweddau mwy ymarferol o ffotograffiaeth hefyd. Gan fod llawer o amser y ffotograffwyr yn mynd i drafod y gwrthrych, cafodd safleoedd gwaith symudol eu creu fel y gall y ffotograffydd weithio mor agos ag y bo modd at y gwrthrychau.  ThTrefnwyd y safleoed gwaith fel bod modd eu haddasu ar gyfer gwrthrychau o wahanol feintiau ac felly nad oedd angen addasu gormod ar y goleuadau na'r camerâu. Mae modd eu pacio mewn troliau hefyd, fel y gellir eu symud yn hawdd trwy'r storfa.

Trwy gyfuno technoleg â llif gwaith effeithlon, mae'r tîm yn amcangyfrif y gellir arbed o leiaf 91,000 awr o waith yn ystod y prosiect.  Mae prosiectau eraill yn y Science Museum Group eisoes yn elwa ar y prosesau newydd hyn. Cafwyd llwyddiant mawr wrth ddefnyddio fersiwn symlach o'r llif gwaith, ynghyd â thechnoleg sganio codau bar, i helpu i symud tua 10,000 o wrthrychau o storfa yn yr Amgueddfa Gwyddoniaeth a Diwydiant ym Manceinion.

*"Mae'n fethiant difrifol a chostus ar ran ein polisi cenedlaethol i feddwl bod pob un o'r 1,700 o amgueddfeydd achrededig y Deyrnas Unedig yn gorfod gwneud penderfyniadau ynghylch casglu (a gwaredu) heb ffordd hawdd o wybod pa eitemau tebyg all fod mewn mannau eraill. Lle bo casglu'n cael ei gydlynu, mae'n drefniant ad hoc a, gan amlaf, yn dibynnu ar rwydweithiau personol a'r wybodaeth sydd gan unigolion."*

Ymatebydd i Casgliadau 2030



# CRYNODEB O'R ARGYMHELLION

## *Amgueddfeydd*

**Gweithio i:**

- hyrwyddo gwaith ar gasgliadau y gwneir defnydd ohonynt
- creu strwythurau mewnol integredig sy'n sicrhau bod yr holl staff yn cael cyfle i rannu arbenigedd ar gasgliadau a chymunedau
- sicrhau amrywiaeth ymhlith gweithlu'r casgliadau
- gwneud ymdrech i ystyried sut i ddad-drefedigaethu casgliadau
- ailddehongli arddangosiadau sydd wedi dyddio
- casglu mewn ffordd strategol mewn partneriaeth â chymunedau
- ennyn diddordeb cynulleidfaoedd ar-lein yn y casgliadau
- cymryd rhan mewn rhwydweithiau o arbenigwyr mewn gwahanol bynciau a rhwydweithiau nad ydynt yn rhan o amgueddfeydd
- gwneud casgliadau amgueddfeydd ar-lein yn fwy tryloyw a hygyrch.
- ystyried cyfleoedd i gasglu deunyddiau digidol anedig
- ystyried rhannu storfeydd.

## *Arianwyr*

**Buddsoddi mewn ffordd strategol mewn amgueddfeydd i:**

- hyrwyddo gwaith ar gasgliadau y gwneir defnydd ohonynt
- sicrhau amrywiaeth ymhlith gweithlu'r casgliadau
- galluogi prosiectau casglu tymor hwy er mwyn cael effaith dda ac osgoi colli gwybodaeth
- ailddehongli arddangosiadau sydd wedi dyddio
- galluogi gwaith casglu strategol ar eitemau cyfoes
- cefnogi rhwydweithiau o arbenigwyr mewn gwahanol bynciau a rhwydweithiau nad ydynt yn rhan o amgueddfeydd
- ariannu prosiectau rhesymoli dyfeisgar y mae'r cyhoedd yn cyfrannu syniadau a gwybodaeth atynt
- gwneud gwybodaeth am gasgliadau amgueddfeydd ar-lein yn fwy tryloyw a hygyrch
- galluogi rhannu storfeydd.

## *Cyrff yn y Sector*

**Gweithio gyda'r sector amgueddfeydd i:**

- hybu newid diwylliant mewn gwaith gyda chasgliadau, yn cynnwys hybu safonau hyblyg yn y sector
- hyrwyddo'r gwaith o sicrhau amrywiaeth ymhlith gweithlu'r casgliadau
- drafftio a hyrwyddo canllawiau ar ddad-drefedigaethu ar gyfer gweithwyr proffesiynol mewn amgueddfeydd
- sicrhau rhagor o waith ymchwil er mwyn deall disgwyliadau'r cyhoedd o gasgliadau cyhoeddus
- cynnig canllawiau ar guradu casgliadau ar gyfer cynulleidfaoedd ar-lein
- rhoi gwell hyfforddiant ar resymoli casgliadau amgueddfeydd
- darparu canllawiau i'r sector cyfan ar gasglu deunyddiau digidol anedig
- cydlynu rhwydweithiau ar gyfer arbenigwyr pynciau.

# EIN METHODOLEG

Roedd dau gyfnod ymchwil yn y prosiect Casgliadau 2030.

Roedd y cyfnod ymchwil cyntaf yn para o fis Chwefror tan fis Medi 2018. Roedd yn cynnwys dros 50 o gyfweliadau gyda gweithwyr proffesiynol blaenllaw mewn amgueddfeydd ac academyddion, gan ystyried syniadau ar gyfer dyfodol casgliadau. Cyfrannodd y gwaith hwn at gyhoeddi papur trafod Casgliadau 2030 Cymdeithas yr Amgueddfeydd ym mis Medi 2018, a oedd yn gwahodd ymgynghori ehangach â'r sector amgueddfeydd.

Roedd yr ail gyfnod ymchwil yn rhedeg o fis Medi 2018 tan fis Chwefror 2019. Roedd yn cynnwys prosesu'r ymatebion i'r papur trafod ac ystyried dogfennau diweddar eraill ar reoli casgliadau a'u defnyddio. Daeth 76 o ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad, y rhan fwyaf ohonynt yn ymatebion gan amgueddfeydd ledled y Deyrnas Unedig. Daeth gweddill yr ymatebion gan unigolion, academyddion, arianwyr a sefydliadau sy'n cefnogi'r sector.

Seilir yr argymhellion yn y ddogfen hon ar ein dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a datblygiadau diweddar eraill yn y maes. Cafodd y gwaith hwn ei oruchwylio gan grŵp llywio'n cynnwys chwe gweithiwr proffesiynol blaenllaw o amgueddfeydd ledled y Deyrnas Unedig. Eu rôl nhw yn ystod y prosiectau oedd diffinio meysydd ymchwil, a chynnig pobl i gysylltu â nhw, cyngor a sylwadau ar gynnyrch drafft y gwaith ymchwil. Yn ogystal, mae'r prosiect wedi elwa ar grŵp cyfeirio o gyrff y sector ac arianwyr sydd wedi cynnig cyngor a sylwadau am y gwaith.

## *Grŵp llywio*

Simon Cane, cyfarwyddwr, UCL Culture

Gillian Findlay, pennaeth amgueddfeydd a chasglu, Culture Perth and Kinross

Sharon Heal, cyfarwyddwr, Cymdeithas yr Amgueddfeydd

Sally MacDonald, cyfarwyddwr, Amgueddfa Gwyddoniaeth a Diwydiant

Steve Miller, pennaeth Amgueddfeydd Norfolk, Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk

Owain Rhys, rheolwr ymgysylltu a chyfranogiad cymunedol, Amgueddfa Cymru

## *Sefydliadau yng ngrŵp cyfeirio Casgliadau 2030*

Y Gronfa Gelf (Art Fund)

Arts Council England

Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol

Yr Ymddiriedolaeth Casgliadau

Sefydliad Esmée Fairbairn

Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru

Rhwydwaith Datblygu Amgueddfeydd

Museums Galleries Scotland

Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol

Cyngor Cyfarwyddwyr Amgueddfeydd Cenedlaethol

Northern Ireland Museums Council

Sefydliad Paul Hamlyn

**Museums Association**
**42 Clerkenwell Close**
**London EC1R 0AZ**
**T: 020 7566 7800**

**www.museumsassociation.org**

***Images courtesy of:***

Birmingham Museums Trust; © Jody Kingzett, courtesy of the Science Museum Group; © Historic Royal Palaces; © The Board of Trustees of the Science Museum; © Sheffield Museums; National Trust - Kingston Lacy; Royal Pavilion and Museums, Brighton and Hove; Amgueddfa Cymru – National Museum Wales; © Time and Tide Museum; Museum of English Rural Life; © The National Gallery, London; Bridport Museum; Ulster Museum

MUSEUMS ASSOCIATION

COLLECTIONS 2030